

Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd

Blwyddyn newydd dda i'n darllenwyr i gyd a chroeso mawr i 21fed rhifyn cylchlythyr CorCenCC. Rydym bellach yn agosáu at




ddiwedd y prosiect a bydd y cylchlythrau olaf hyn yn rhoi newyddion am stondinau teithiol a lansiadau'r corpws – a byddan nhw'n dangos

beth yn union y gallwch chi ac eraill ei wneud gyda CorCenCC. Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhoi manylion i chi am fersiwn arddangos o'r offer ymholi sydd bellach yn fyw! Rydym yn gwahodd ein darllenwyr i brofi'r offer a rhoi adborth i ni am eich barn. Hefyd, rydym yn cyflwyno aelod newydd o dîm CorCenCC i chi (a dwy sydd yma'n barod, yn ein slot 'cwrdd â'r tîm') ac rydym yn ffurweliog ag aelod arall sydd wedi symud i borfeydd newydd. Ar ben hynny mae yna alw am fwy o ddata o hyd: er ein bod yn symud yn nes byth at ein targed o 10 miliwn o eiriau, gwerthfawrogem eich cymorth i geisio croesi'r llinell derfyn – Rhowch eich Cymraeg i ni!

Dawn Knight

Cynnwys

- T1: Newyddion
- T3: WP1: mae angen eich help
- T3: Arddangos offer ymholi CorCenCC
- T6: Cwrdd â'r tîm*2
- T8: Cysylltwch â ni



+ Newyddion Hwyl fawr a helo

Mae'n ddrwg gennym gyhoeddi bod Cynorthwydd Ymchwil Prifysgol Caerdydd Lowri Williams, sydd wedi chwarae rhan bwysig yn nhîm WP1, newydd gychwyn swydd fel Gwyddonydd Data gyda Thîm Cyflymydd Arloesedd Data yn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg yma ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Lowri wir wedi bod yn ased i'r tîm a gwelwn ei heisiau hi'n fawr. Dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd a gobeithio y bydd hi'n parhau i gymryd rhan ym mhrosiect CorCenCC ym mha ffordd bynnag y gall. Mae'n dda gennym gyhoeddi fod Dr Laura Arman yn camu i mewn i esgidiau Lowri ac mae hi newydd ddechrau gweithio fel ein CY prosiect newydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Laura'n ymuno â ni o Brifysgol Bangor lle mae hi wedi treulio'r ddwy flynedd a hanner


diwethaf yn darlithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud gwaith prosiect pedagogaid. Gofynnwn ni i Laura ddweud ychydig o eiriau amdani ei hun fel ffordd o'i chyflwyno ei hun i'r tîm.... "Blwyddyn newydd dda! Laura dw i a dw i newydd ymuno â'r prosiect ar ddechrau'r flwyddyn. Mae fy nghefnidir mewn ieithyddiaeth a, chyn i mi gael y swydd hon, roeddwn mewn sawl gwahanol swydd darlithio rhan amser ym Mhrifysgol Bangor, Huddersfield a Phrifysgol Manceinion. Ym Manceinion cefais fy ngraddau BA (Ffrangeg ac ieithyddiaeth), MA, a PhD. Dw i wedi gweithio ar brosiectau



Lowri Williams

ymchwil ar dafodieithoedd Cwrdeg a Romani ym Manceinion, ac mae cyffwrdd iaith ac ieithoedd lleiafrifoledig yn rhai o'm diddordebau ymchwil. Roedd fy ngwaith doethurol ar forffo-gystrawen y Gymraeg a'r rhyngwyneb

cystrawen-semantic. Ym Mhrifysgol Bangor, cefais y cyfle i wneud dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ieithyddiaeth ac arweiniodd hyn i'm rôl fel swyddog prosiect ar e-lyfr Cyflwyniad i ieithyddiaeth sydd wedi'i anelu at fyfyrwyr blwyddyn gyntaf. Ysgrifennais rai o'r penodau yn ogystal â gweithredu fel golygydd a chydlynnydd ar gyfer y llyfr. Ariannwyd y llyfr gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o dan arweiniad Dr Sarah Cooper ym Mangor i'w gyhoeddi'n gynnar yn 2019 gan y Coleg Cymraeg. Dw i'n falch o fod yn ymuno â phrosiect a fydd yn hwb i'r Gymraeg mewn cymaint o ffyrdd! Dw i'n falch iawn y bydd yr adnodd hwn ar gael i ddysgwyr ac i ymchwilwyr am ddim. Dw i hefyd yn falch o ymuno â'r tîm yng Nghaerdydd: dw i'n mwynhau crwydro manau newydd a tydw i ddim yn gyfarwydd gyda de Cymru (eto) fel brodor o Fethesda, Gwynedd!"




Cyflwyniadau cynhadledd sydd ar y gweill

Mae aelodau o dîm CorCenCC wedi cael eu derbyn i gyflwyno papurau yn y cynadleddau canlynol yn 2019:

- Knight, D., Morris, S., Fitzpatrick, T., Morris, J., Rayson, P., Spasić, I., Thomas, E.M., Neale, S., Needs, J., Piao, S., Rees, M. a Williams, L. (2019). CorCenCC - Sesiwn arddangos. Papur i'w gyflwyno yn yr XVleg *Gyngres Astudiaethau Celtaidd Ryngwladol*, Gorffennaf 2019, Prifysgol Bangor, DU.
- Knight, D. Morris, S. a Fitzpatrick, T. (2019). Peaks and troughs: reflections on securing and managing large academic research projects. Papur i'w gyflwyno yn symposiwm undydd *IVACS (Astudiaethau Amrywiol a Chorpws Cymhwysol)* ar *Ieithyddiaeth Corpws a'r Ystafell Ddosbarth*, Mawrth 2019, Prifysgol TU Dortmund, yr Almaen.
- Knight, D., Morris, S., Fitzpatrick, T., Morris, J., Rayson, P., Spasić, I., Thomas, E.M., Neale, S., Needs, J., Piao, S., Rees, M. a Williams, L. (2019). CorCenCC (Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes – National Corpus of Contemporary Welsh): The journey so far. Papur i'w gyflwyno yn symposiwm undydd *IVACS (Astudiaethau Amrywiol a Chorpws Cymhwysol)* ar *Ieithyddiaeth Corpws a'r Ystafell Ddosbarth*, Mawrth 2019, Prifysgol TU Dortmund, yr Almaen.

Mae Prif Ymchwilydd y Prosiect, Dawn Knight, hefyd yn arwain y pwyllgor trefnu ar gyfer y Gynhadledd Ieithyddiaeth Corpws Rhyngwladol sydd ar y gweill, i gael ei gynnal ym Mhrifysgol Caerdydd rhwng 22 a 26 Gorffennaf. Mae Ieithyddiaeth Corpws yn gynhadledd a gynhelir bob dwy flynedd, sydd wedi bod yn digwydd ers 2001 ac sydd wedi cael ei chynnal gan Brifysgol Caerhirfryn, Prifysgol Lerpwl, a Phrifysgol Birmingham. Dyma fydd y tro cyntaf i'r gynhadledd gael ei chynnal yng Nghymru.

Thema'r gynhadledd yw: 'Dyfodol Ieithyddiaeth Corpws'. Nod y thema yw tynnu ein sylw at rai o'r heriau a'r cyfleoedd mae Ieithyddiaeth Corpws wedi eu hwynebu, yn parhau i'w hwynebu, ac yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiad CorCenCC i gyd-fynd â'r gynhadledd – cyhoeddir rhagor o fanylion (gan gynnwys sut i gymryd rhan) – yn fuan. I gael rhagor o wybodaeth am y gynhadledd hon, ewch i: www.cl2019.org



+ WP1: Mae angen eich help

Mae Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes yn chwilio am gyfraniadau! Cyn y Nadolig, cyhoeddod ni ein map yn dangos bod ein cyfraniadau Cymraeg llafar bron i 100% yn y rhan fwyaf o'r wlad, gyda dim ond llond llaw o ardaloedd heb ddigon o Gymraeg eto. Os ydych chi'n adnabod siaradwyr o Ferthyr Tudful, Conwy, Sir y Fflint neu Ynys Môn, gofynnwch iddynt gyfrannu! Mae modd gyrru recordiadau o'r iaith lafar yn hawdd drwy ein [ap torfoli](#) (ar gael ar [Android](#) ac [iOS](#)).

Cymraeg dros yr ap

Mae ein ap yn galluogi i unrhyw un yrru eu recordiadau Cymraeg naturiol aton ni mewn ffordd ddymunol a syml. Yn gyntaf, mae'r ap yn gofyn am eich caniatâd ac am eich manylion personol (rhag ofn i chi newid eich meddwl yn y dyfodol a gofyn i ni ddileu eich data). Yna, bydd gofyn i chi wneud dau recordiad. Ar yr un cyntaf, mae angen i bawb sy'n bresennol ganiatáu i ni ddefnyddio'r recordiad. Yn yr ail recordiad mae'r hwyl! Efallai eich bod yn hoff o'r ffordd mae un aelod o'r teulu'n siarad ac yn awyddus i rannu eu tafodiaith unigryw â'r Corpws. Neu efallai eich bod yn cael sbort gyda ffrindiau dros ginio ac yn fodlon rhannu'r hwyl gyda ni! Pa bynnag reswm, hoffen ni gynnwys eich Cymraeg naturiol, 'bob dydd' yn y Corpws. Mae'r ap yn ffordd hawdd o rannu eich iaith a sbarduno sgwrs ddifyr ar yr un pryd! Os nad ydych yn hyderus iawn wrth ddefnyddio apiau newydd, mae [canllawiau](#) ar gael i'w dilyn: <http://www.corcencc.cymru/ap/>.

Cymraeg drwy e-bost

Yn ein corpws o 10,000,000 o eiriau, rydym yn ceisio cydbwysu gwahanol 'fathau' o iaith. Ar hyn o bryd, rydyn ni wedi rhagori ar ein targed o iaith o flogiau a gwefannau – carreg filltir! Rydyn ni'n dal i chwilio am ragor o gyfranwyr sy'n fodlon rhannu eu negeseuon ac e-byst â ni (p'r un bynnag faint o Saesneg sydd ynddynt)! Gall y negeseuon fod o natur broffesiynol neu bersonol – bydd popeth yn ddienw yn y Corpws. Os ydych yn fodlon cyfrannu eich **e-byst**, gyrrwch nhw ymlaen at CorCenCC@caerdydd.ac.uk (byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd cyn y medrwn ni ddefnyddio eich cyfraniadau). A rhannwch ein cais gyda'ch ffrindiau, os gwelwch chi'n dda!

Rydyn ni'n casglu negeseuon testun drwy ein **WhatsApp**. Ychwanegwch +44 7542 348512 fel cysylltiad ar eich WhatsApp a gyrrwch neges sydyn i ddweud helo! Bydd aelod o'r tîm wedyn yn cysylltu cyn gynted â phosib gyda chanllawiau ar sut i yrru negeseuon ymlaen i ni mewn un swmp sydyn.


Cadwch mewn cyswllt

Os ydych chi â diddordeb mewn cyfrannu i'r project, ond angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r cyfeiriad **e-bost** uchod neu hyd yn oed drwy Twitter [@CorCenCC](#) neu Facebook [CorCenCC](#). Bydden ni'n falch o glywed gennych!

Os ydych chi'n fodlon cyfrannu mwy o enghreifftiau o'ch iaith i'r corpws, ond heb amser ar hyn o'r bryd, dilynwch ein cyfrifon ar y gwefannau cymdeithasol am atgoffyn ac am ddiweddariadau am y prosiect.

+ Arddangos offer ymholi CorCenCC


Ers y flwyddyn newydd gwelwyd peth cynnydd pwysig yng nghyswllt offer holi corpws pen blaen CorCenCC, ac rydym yn falch iawn o'u rhyddhau ar ffurf fersiwn beta y mis yma. Yr offer yw prif ddatblygiad WP5, sy'n canolbwyntio ar y seilwaith sy'n ofynnol i adeiladu a chynnal y data, a sicrhau bod modd i bobl blymio iddo pan fydd yn barod. Nawr bod yr hyn a nodwyd fel prif swyddogaethau ar waith, rydym ni'n gobeithio y bydd rhyddhau'r fersiwn beta hon o'r offer holi yn sicrhau peth adborth hanfodol i ni, y byddwn yn gallu ei ddefnyddio i fireinio ac ehangu nodweddion yr offer rhwng nawr a diwedd y prosiect.



Ar hyn o bryd mae'r offer yn gweithredu trwy ddefnyddio corpws bach iawn o ryw 15,000 o eiriau, yr ydym wedi'u defnyddio ar hyd CorCenCC i werthuso ein hamrywiol offer meddalwedd, ond wrth gwrs byddwn ni'n disodli hynny â'r data a gasglwyd gan dîm WP1 yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio'r fersiwn beta, mae'n dal yn bosibl cyrchu'r ystod lawn o swyddogaethau cyfredol ac arbrofi gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys:

- Llinellau mynegai Keyword-in-context (KWIC):
 - Chwilio am eiriau (neu ddilyniant o eiriau) yn CorCenCC, a gweld y canlyniadau yn eu cyd-destun, gyda'r testun o'u hamgylch i'r chwith a'r dde yn cael ei arddangos. Mae ein hoffer holi yn cynnig dwy ffordd o gynhyrchu llinellau mynegai:
 - Dewis 'Simple Query' > sef defnyddio ein ffurflen hwylus i chwilio am eiriau unigol, wedi'u cyfyngu i ffurfiau penodol o ran treigladau, rhannau ymadrodd (POS; categorïau cystrawennol), a/neu categorïau semantig fel sy'n briodol.
 - Dewis 'Full Query' > sef defnyddio ein hiaith holi unigryw i gyfuno ymholiadau mwy cymhleth a chwilio am ddilyniannau o eiriau (mae cyfarwyddiadau llawn ynghylch llunio ymholiadau ar gael ar yr offer eu hunain).

- Rhestrau amllder:
 - Cynhyrchu rhestrau o'r eitemau geiriol sy'n digwydd amlaf yn y corpws - p'un ai nhw yw'r geiriau mwyaf cyffredin, neu'r ffurfiau lema mwyaf cyffredin.




- Dewis 'Frequency List' > sef dewis a ydych am greu rhestr 'geiriau' neu 'lemas' > ac yna dewis a ydych am gyfyngu'r rhestr i dagiau POS penodol, ffurfiau penodol o ran treigladau a/neu dagiau cystrawennol.

- Dadansoddiad N-Gram:
 - Cynhyrchu rhestrau o'r n-gramau sy'n digwydd amlaf (enw arall ar y rhain yw 'clystyrau' o eiriau) - er enghraifft, y dilyniannau tri gair a ddefnyddir gyda'i gilydd sy'n digwydd amlaf yn y corpws.
 - Dewis 'N-Gram Analysis'; > sef dewis a ydych am greu clystyrau o dagiau 'geiriau', 'lemas', neu 'POS' > cyn dewis maint gram i gynhyrchu rhestr.
- Dadansoddi cydleoiliad
 - Cynhyrchu rhestrau o gydleoiliadau - geiriau y ceir hyd iddynt gan amlaf ochr yn ochr â therm chwilio a roddwyd oddi mewn i ffenestr gyd-destunol a roddwyd (geiriau-n bob ochr i'r term chwilio) - wedi'u rhestru yn ôl cryfder eu cydleoili.
 - Dewis 'Collocation analysis' > sef nodi term chwilio (gair) yr ydych am wybod beth yw ei gydleoiliadau > yna dewiswch faint y ffenestr yr ydych am ystyried cydleoiliadau oddi mewn iddi (plws neu minws 7 bob ochr) > cyn dewis metrig 'cryfder' ar gyfer graddio cydleoiliadau (disgrifir y metreg sydd ar gael ar yr offer).
- Dadansoddi geiriau allweddol
 - Cynhyrchu rhestr o eiriau allweddol - rhai y mae eu digwyddiad yn ystadegol arwyddocaol o gymharu â chyfradd eu digwyddiad mewn is-gorpora cymaradwy. Er enghraifft, darganfod pa eiriau sy'n ystadegol gyffredin mewn is-gorpws sy'n cynnwys data corpws llafar yn unig, o gymharu ag is-gorpws sy'n cynnwys data ysgrifenedig ac electronig.
 - Dewis 'Keyword Analysis' > sef clicio ar 'Sub-corpus A' a dewis opsiynau o ran cynnwys data (neu beidio) ar gyfer eich prif gorpws (is-set i CorCenCC) > cyn clicio ar 'Sub-corpus B' a dewis opsiynau o ran cynnwys data (neu beidio) ar gyfer eich corpws cyfeiriadol (is-set i CorCenCC) > ac yna dewis dull ar gyfer graddio pa mor allweddol 'keyness' yw'r geiriau (disgrifir hyn yn fanylach ar yr offer) > ac yna dewis lefel yr arwyddocâd sy'n angenrheidiol cyn i air gael ei ystyried yn 'allweddol'.

Cefnogir y prif swyddogaethau hyn gan nodweddion ychwanegol, gan gynnwys gallu gwneud y canlynol:

- Didoli canlyniadau i'r chwith a'r dde o'r gair/geiriau chwilio, er mwyn medru gweld gwahanol batrymau o ddefnyddio'r iaith Gymraeg;
- Hidlo'r canlyniadau yn ôl yr amrywiol fetadata rydym wedi bod yn ei gasglu, ynghylch cyfraniadau i'r corpws a'r cyfranwyr a'r siaradwyr sy'n ymwneud â nhw.

Yn llythyr newyddion mis Tachwedd, fe wnaethom ni ddisgrifio sut mae datblygu'r offer holi wedi cael ei lywio gan arolwg a gynhaliwyd gennym ar ddewisiadau defnyddwyr o ran offer presennol sy'n dadansoddi ac yn holi'r corpws. Bu hynny o ddiddordeb o ran ein helpu i benderfynu pa swyddogaethau ddylai gael blaenoriaeth ar hyn o bryd. Yn yr un ysbryd, rydym ni hefyd yn cynnwys opsiwn gadael adborth yn ein fersiwn beta o'r offer holi - felly mae croeso i chi roi gwybod i ni beth yw eich barn amdany'n nhw!



Rydym ni'n edrych ymlaen at weld sut mae pobl yn defnyddio'r gwahanol nodweddion rydym wedi'u cynnwys, a bydd eich mewnbwn yn werthfawr i'n helpu i benderfynu pa nodweddion dylen ni eu cynnwys nesa.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn ni'n adolygu'r holl adborth a gawn ar ein fersiwn beta o'r offer holi er mwyn cynnwys cynifer o swyddogaethau defnyddiol â phosibl, fel bod yr offer mor effeithiol â phosibl o ran amlygu sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau ar draws data'r corpws rydym ni'n ei gasglu. Mae'r gwaith o ddatblygu ein pecyn offer addysgeg - gan aelodau WP4 - hefyd yn mynd rhagddo'n dda, felly byddwn ni'n gweithio i gysylltu hynny â'r offer holi, fel bod modd i athrawon a dysgwyr ddefnyddio'r data ar gyfer eu cynlluniau gwersi a'u sesiynau astudio eu hunain.

Felly, mae croeso i chi archwilio ein fersiwn beta o offer holi corpws CorCenCC, sydd ar hyn o bryd yn <http://corpusdemo.corcenc.org> - rydym ni'n edrych ymlaen at glywed beth yw barn pawb ohonoch!

+ Cwrdd â'r tîm: Mair Parry-Jones, Pennaeth Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymunais â'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr 1999 er mwyn sefydlu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Erbyn hyn rwy'n bennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi sy'n gyfrifol am bedwar maes gwaith:

- Cyfieithu testun;
- Cyfieithu ar y pryd;
- Cynhyrchu'r Cofnod, sef trawsgrifiad o drafodion swyddogol y Cynulliad;
- Gweithredu Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad.

Rydym yn dîm o bron i hanner cant o aelodau staff i gyd, gyda rhai aelodau yn ymgymryd â mwy nag un o'r dyletswyddau craidd: rhai yn gyfieithwyr ar y pryd a chofnodwyr; eraill yn gyfieithwyr testun a chyfieithwyr ar y pryd.

Ymarferwyr iaith proffesiynol ydym oll, yn trin a thrafod y Gymraeg a'r Saesneg fel y'i gilydd yn ein gwaith bob dydd. Mae'r ffordd rydym yn gwneud hyn wedi newid dros y blynyddoedd, yn bennaf o ganlyniad i fabwysiadu datblygiadau ym maes technoleg.

Ers blynyddoedd bu'r Cofnod yn ffynhonnell werthfawr i lunio corpws cyfochrog Cymraeg-Saesneg. Mae cael corpws mor helaeth o destun cyfatebol yn y ddwy iaith wedi bod yn gymorth mawr i ddatblygiadau ym maes technoleg iaith.

Ers 2013 mae data'r corpws ar gael ar fersiwn XML chwiladwy, gyda chod agored i ddatblygwyr wneud y gorau ohono. Erbyn hyn cyhoeddir tair fersiwn o'r Cofnod: fersiwn ddwyieithog, gyda'r cyfraniadau yn ymddangos yn yr iaith y'u siaradwyd hwy yn y golofn chwith ynghyd â thrawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg; fersiwn Saesneg yn unig, a fersiwn Gymraeg yn unig.

Mae arddull y Cofnod hefyd wedi ystwytho ychydig dros y blynyddoedd er mwyn adlewyrchu arddull siarad yr areithiwr yn yr iaith wreiddiol. Mae'r arddull yn llai ffurfiol a mwy sgyrsiol nag a fu.

Yn ogystal, ers 2017 mae'r Cofnod wedi bod yn gweithio gyda meddalwedd trawsgrifio wedi'i theilwra. Mae system TRO yn hwyluso'r gwaith i'r cofnodwr ac i'r sawl sy'n ei gyhoeddi ar y we.

At hynny, mae rhai o aelodau o'r tîm yn defnyddio meddalwedd adnabod llais i'w cynorthwyo i drawsgrifio. Gwaetha'r modd, nid yw'r dechnoleg hon ar gael i drawsgrifio'r Gymraeg ar hyn o bryd. Gobeithiwn weld datblygiadau cyffrous yn y maes technoleg llferydd dros y blynyddoedd nesaf.

O ran cyfieithu testun, fe weithion ni gyda Microsoft yn 2014 i lansio'r Gymraeg fel dewis iaith ar raglenni Microsoft ar ei amryfal blatfformau, ac yn

benodol ar raglenni Microsoft Office. Erbyn hyn mae system cyfieithu peirianyddol niwral – sy'n cyflwyno elfen o dechnoleg deallusrwydd artiffisial i'r broses – wedi disodli'r system ystadegol a ddefnyddid o'r blaen. Mae hyn wedi arwain at gynydd pendant yn safon y cyfieithu awtomatig.

Mae rhai'n darogan gwae i'r proffesiynau cyfieithu a chofnodi o ganlyniad i'r datblygiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r arbenigwyr mwyaf blaenllaw rhyngwladol ym maes deallusrwydd artiffisial yn pwysleisio bod – ac y bydd – angen parhau i gael 'bod dynol yn y ddolen'. Y gamp yw addasu i fyd o newid. Mae'n anochel y bydd yn arwain at rai newidiadau ond nid at ddisodli'r angen am weithwyr cymwys, proffesiynol. Mae crefft y cyfieithydd eisoes wedi newid i ôl-olygu testun a gynhyrchir gan beiriant. Efallai y dylid ystyried y grefft yn un ychydig yn wahanol – y grefft o ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd gennym eisoes i drin data.

Bellach hefyd mae gennym dîm o dri thiwtor Cymraeg mewnol sy'n rhoi gwersi Cymraeg i dros gant o ddysgwyr, gyda llawer o Aelodau'r Cynulliad yn eu plith.

Mair Parry-Jones

+ Cwrdd â'r tîm: Jennifer Needs, CY ym Mhrifysgol Abertawe

Dyw hi ddim yn anodd iawn esbonio pam o'n i'n awyddus i fod yn rhan o CorCenCC pan glywais i gyntaf am y prosiect. Mae ieithoedd wedi bod o ddi-ddordeb mawr i fi erioed (mae gen i radd mewn Sbaeneg ac Ieithyddiaeth), a'r Gymraeg yn benodol ers i fi gwblhau MA ym maes ieithoedd mewn perygl yn 2009. Ar ôl dysgu am ieithoedd llai eu defnydd ar draws y byd, a'r camau y gellir eu cymryd i helpu eu harbed nhw rhag diflannu, penderfynais i ddod yn ôl i Gymru i weithio gyda'r iaith leiafrifol oedd agosaf at fy nghalon – y Gymraeg.

Yn enedigol o'r Fenni, dysgais i'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion Saesneg. Cymraeg oedd un o fy mhynciau Lefel A, ond wedyn es i i fyw yn Lloegr a Sbaen, gan anghofio'r rhan fwyaf o fy Nghymraeg! Ces i ragor o wersi drwy gynllun Cymraeg i Oedolion (CiO) ac yna dechrau gweithio ym maes CiO fy hun, fel cynorthwydd ymchwil cyfrwng Cymraeg. Dyna ffordd arbennig o wella'ch Cymraeg yn gyflym iawn!

Es i ymlaen i wneud PhD drwy gyfrwng y Gymraeg, eto ym maes CiO ond y tro hwn yn edrych yn benodol ar sut y gall dysgu ar-lein helpu oedolion i gaffael y Gymraeg. Ysgrifennais i ddeunyddiau e-ddysgu newydd sbon i ddechreuwyd, gan ddilyn dros 100 o egwyddorion ar gyfer dysgu llwyddiannus. Ymhlith yr egwyddorion hyn oedd: annog dysgwyr i "ddarganfod" atebion eu hunain yn lle dibynnu ar y tiwtor; dangos yn glir sut mae eitemau gramadegol/geirfaol yn cael eu defnyddio mewn cyd-destun; a chaniatáu i ddysgwyr reoli eu dysgu eu hunain.

Pan glywais i am CorCenCC, gwelais i'n syth y byddai'r corpws yn adnodd unigryw gyda'r potensial i gyfoethogi profiad dysgu miloedd o ddysgwyr o bob oed, gan iddo gyfuno'r egwyddorion pwysig hyn. Bydd dysgwyr (naill ai yn annibynnol neu gyda chymorth athro/tiwtor) yn gallu chwilio am eiriau Cymraeg a gweld sut mae'r geiriau hyn yn ymddangos mewn brawddegau dilys, yn union fel y cawson nhw eu siarad/ysgrifennu gan y siaradwr/awdur gwreiddiol. Bydd modd cymharu sut mae gair yn cael ei ddefnyddio'n wahanol yn ôl cyd-destun – e.e. cymharu brawddegau o lyfr academaidd â brawddegau o sgwrs anffurfiol yn y dafarn. Hefyd, bydd dysgwyr yn gallu darganfod rheolau gramadegol wrth edrych ar frawddegau enghreifftiol, yn lle disgwyl i diwtor ddarparu'r wybodaeth – e.e. edrych ar eiriau sy'n dod ar ôl "hoff" a sylweddoli bod treigladd meddal fel arfer yn dilyn y gair.



Drwy gymryd rôl fwy weithredol yn eu dysgu, dylai dysgwyr Cymraeg gofio syniadau newydd yn well, a chael mwy o hwyl yn y dosbarth hefyd! Dw i wir yn edrych ymlaen at weld traweffaith CorCenCC ar y ffordd mae pobl yn dysgu ac addysgu'r Gymraeg yn y dyfodol. Dw i mor falch i fi gael fy ngeni mewn gwlad ddwyieithog a chael y fraint o ddysgu'r Gymraeg – gobeithio bydd CorCenCC yn helpu llawer o bobl eraill i ddod i nabod yr iaith yn well hefyd.

Jennifer Needs



Dw i wrth fy modd yn gwisgo lan!

+ Cysylltu â ni

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook:

www.facebook.com/CorCenCC/; Twitter <https://twitter.com/corcencc> (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: corcencc@caerdydd.ac.uk neu ewch i'n gwefan, sef: www.corcencc.cymru



Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y **Prif Ymchwilydd** - Dawn Knight; y **Cyd-Ymchwilydd** - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas, Alex Lovell a Jonathan Morris; y **Cynorthwyydd Ymchwil** - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Ignatius Ezeani a Laura Arman; y **myfyrwyr PhD** - Vigneshwaran Muralidaran a Bethan Tovey; **Ymgynghorwyr** - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; **Grŵp Ymgynghorol y Prosiect** - Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru). Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: KnightD5@caerdydd.ac.uk